



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

13 Rhagfyr 2018

9:00 am – 12:30 pm

Optic, Llanelwy

Yn bresennol:	Cynghorydd Gareth Roberts (Cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Cynghorydd Liz Roberts, Cynghorydd Joan Lowe, Sally Baxter, Mark Wilkinson, Neill Anderson, Keith Roberts, Jennie Lewis, Peter Williams, Clare Budden, Caroline Turner, Morwena Edwards, Sian Purcell (yn mynychu ar ran Wendy Jones), Ffion Johnstone, Cynghorydd Christine Jones, Neil Ayling, Marian Wyn Jones, Mary Wimbury, Lynda Colwell, Teresa Owen, Dave Worrall, Cynghorydd Bobby Feeley, Judith Greenhalgh, Bethan Jones, Chris Stockport.
Ymddiheuriadau:	Nicola Stubbins, Jenny Williams, Wendy Jones, Rob Smith, Cynghorydd Llinos Medi Huws, Liz Hughes, Charlotte Walton
Hefyd yn Bresennol:	Sarah Bartlett, Rheolwr Prosiect Rhanbarthol (ar gyfer eitem 5 ar y Rhaglen)

Eitem		Camau gweithredu
1.	<u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u> Croesawodd GR bawb i'r cyfarfod, yn arbennig aelodau newydd y Bwrdd: Mark Wilkinson (BIPBC), Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad) a Clare Budden (PSG Pennaf). Diolchodd hefyd i SB am ei phresenoldeb a'i chyfraniad at y Bwrdd.	
2.	<u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol a chamau gweithredu.</u> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd fel cofnod cywir. Materion a gwblhawyd: <ul style="list-style-type: none">• Dogfen cynigiad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi'i dosbarthu i aelodau'r BPRh• Llythyr ynghylch setliad ariannol ALI wedi'i anfon at LIC.	

	<ul style="list-style-type: none"> • Swydd Ymarferydd Ymgynghorol Dementia Perthynol i Iechyd Cymru Gyfan ar yr agenda heddiw. • Y siart perthynas plant wedi'i dderbyn gan Andrea Williams a'i gynnwys er gwybodaeth yn y pecyn papurau ar gyfer y cyfarfod. • Cynnig TGC ar yr agenda ar gyfer heddiw. • 'Beth sy'n Bwysig' – diweddariad byr ar yr agenda ar gyfer heddiw a gweithdy i'w drefnu ar gyfer y Flwyddyn Newydd. • PW a JL wedi cael gwahoddiad i Weithdy Gofalwyr a'u cynnwys ar restr dosbarthu'r Gofalwyr. • Trafodaeth TO ar Blant a Phobl Ifanc wedi'i gwblhau. • Dogfennaeth IFSS ychwanegol wedi'i hanfon ymlaen at TO. • Manylion cyswllt PGGC wedi'u hanfon at DH. • Wedi cysylltu â'r ymgeiswyr Trydydd Sector • HM wedi cael gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod y Grŵp Arweinyddiaeth ym mis Ionawr i adrodd ar y Ganolfan Wybodaeth. <p>Camau gweithredu sydd eto i'w cwblhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Cytundeb y Bartneriaeth Comisiynu ar y gweill a bydd y Bwrdd yn derbyn cadarnhad unwaith y bydd hwn wedi'i gytuno a'i arwyddo gan y partneriaid. • Adroddiad Arbenigwr – ni dderbyniwyd yr adroddiad er gwaethaf sawl cais i Donna Hutton <p>Dywedodd Sian Purcell fod fforymau compact yn gweithio'n rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru. WJ i roi adborth i'r cyfarfod ym mis Ionawr 2019.</p>	
<p>3.</p>	<p><u>Cymru Iachach - Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol</u> Roedd Sally Baxter yn bresennol i gyflwyno'r adroddiad drafft diweddaredig terfynol i'r Bwrdd er cymeradwyaeth ffurfiol.</p> <p>Mae'r cynnig wedi'i ddiweddarau o ganlyniad i sylwadau aelodau'r Grŵp Arweinyddiaeth ac adborth o weithdy Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru yn ymwneud â disgrifiad generig o'r angen i ddatblygu gweithlu cynaliadwy, heb fod yn gyfyngedig i swyddi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol (gweithiwr generig).</p> <p>Mae'r brif thema a ddynodwyd yn awr yn cyd-fynd, gyda disgrifiad clir o integreiddiad ac eglurhad ar gyd-destun cyffredinol y tri maes: Y Gweithlu, Digidol a Datblygu Rhwydweithiau Cymunedol. Mae'r tri maes a ddynodwyd hefyd yn rhai y gallent ehangu'n gyflym ar draws y rhanbarth a Chymru gyfan.</p> <p>Mae'r cynnig yn awr yn dangos ymgais i fod yn arloesol, gan gysylltu â chlystyrau a cheisio integreiddiad ehangach gan gynnwys pob sector yn ogystal â phartneriaid iechyd a Gofal Cymdeithasol ac mae'n cynnwys hyblygrwydd i weithio'n isranbarthol yn ogystal ag yn rhanbarthol.</p> <p>Y proffil cyllido amlinellol:</p>	

BI 1 : £231K
BI 2 : £3.7K
BI 3 : £2.04M

Eglurodd SB y gallai fod cwmpas ar gyfer trafodaethau perthnasol i ymestyn y drydedd flwyddyn i 12 mis llawn ac mae gwaith ar y gweill i archwilio llwybrau posibl er mwyn gallu gwneud hyn.

Holodd LC am gyfleoedd posibl i'r trydydd sector gyflwyno ceisiadau fel rhan o'r gronfa drawsnewid.

Dywedodd SB fod y gronfa drawsnewid ar agor ar gyfer cyflwyniadau am ychydig fisoedd ac y byddai angen cymeradwyo unrhyw gynigion neu newidiadau ychwanegol drwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru cyn gwneud hynny.

Cydnabu TO y gwaith a wnaed ar y cynnig, yn arbennig y cynnydd sydd i'w wneud ar y ffrwd waith ddigidol a phwysleisiodd bod cyfle yma i symleiddio'r cynigion yn fframwaith deilliannau.

Yn ogystal croesawodd BJ y cyfle i symud y Gwasanaethau Cymunedol yn eu blaen ac argymhellodd y dylai cynllunio lleol ddechrau'n fuan oherwydd bod yr amserlen mor dynn. Bydd angen hefyd ystyried rhyddhau a mesur adnoddau yn y system bresennol a sut y bydd hyn yn effeithio ar y model, yn ogystal â phwysigrwydd cynaladwyedd y model.

Ychwanegodd CB er bod tai yn cael ei grybwyll yn y model, y gellir cryfhau hyn gan gydnabod y cyfraniad y gallai tai ei wneud i'r cynnig e.e. arwyddobostio, mordwyo cymunedol, platfform rhyngweithio.

Gofynnodd MWJ, er bod yr amserlen yn dynn, a oedd y cynnig yn ddigon heriol ac uchelgeisiol ac a roddwyd ystyriaeth i gyflwyno cynnig mwy er mwyn cynnwys y gwasanaethau eraill.

Dywedodd BJ fod cais mwy wedi'i roi at ei gilydd yn wreiddiol ond y cafodd ei leihau ar ôl ystyried ymarferoldeb y ddarpariaeth a'r amser sydd ar gael. Mae'r cynnig presennol yn cynnwys swp aruthrol o waith i'w wneud gyda'r trydydd sector a'r sector annibynnol er mwyn bod â strwythur datblygu gyrfa ar gyfer staff heb gymwysterau.

Ychwanegodd BJE, hyd y gwyddom ar hyn o bryd, bod nawdd y Gronfa Gofal Integredig hefyd yn dod i ben ddiwedd Mawrth 2020, felly mae angen ystyried hyn hefyd yng nghyd-destun cynaladwyedd.

Roedd BPRhGC hefyd yn cytuno y dylid cymeradwyo'r cynnig Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol.

Ymyrraeth gynnar integredig a chefnogaeth ddwys i blant a phobl ifanc
Dywedodd NA fod LIC wedi cyhoeddi llythyr mewn ymateb i'r cynnig Plant a rhoddodd adroddiad hefyd ar gyfarfod dilynol gyda LIC ar ymweliad â'r Fflint i roi sylw i'r materion canlynol:

	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r gronfa'n cynnwys lwfans ymchwil nac arian cyfalaf (refeniw yn unig) • Mae angen rhagor o wybodaeth am gynladwyedd y gwasanaeth ym mlwyddyn 3. • Mae angen mwy o eglurder ynghylch pam yr ydym yn gwneud cais am arian o'r gronfa Trawsnewid yn hytrach na defnyddio nawdd grant arall. • Atebolrwydd a llywodraethu <p>Bydd y cynnig Plant yn cael ei ailgyflwyno ym mis Ionawr 2019.</p> <p><u>Gwasanaethau di-dor i bobl ag anableddau dysgu.</u></p> <p>Y cynnig hwn oedd y cyntaf i gael ei gyflwyno a'i gymeradwyo. Mae'r swyddi newydd ar gyfer y tîm o wyth ar draws y rhanbarth yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd. Bydd manyleb drafft ar gyfer y gwasanaeth yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir er mwyn sicrhau cyngor/gwerthusiad arbenigol ar gyfer y prosiect. Dywedodd NA nad oedd yn ymwybodol o gynigion LD eraill a gyflwynwyd yng Nghymru ac am y rheswm hwn mae cyfle go iawn i'r rhanbarth symud y gwaith hwn yn ei flaen mewn ffordd arwyddocaol.</p> <p><u>Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru</u></p> <p>Mae llythyr a gynhwyswyd gyda phe cyn y cyfarfod yn cadarnhau cymeradwyaeth y cynnig gan LIC. Bydd llywodraethu'n digwydd drwy'r bwrdd T4MH gyda BPRhGC yn derbyn adroddiadau. Mae cyfarfod yn cael ei drefnu i goladu'r wybodaeth derfynol ar gyfer y cais.</p> <p>Diolchodd MWJ, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd BIMPBC i bawb sy'n rhan o'r cynnig hwn, gan ddatgan fod y Bwrdd T4MH yn arweinydd yn y maes ac yn cynnig cyfle unigryw ar gyfer cydweithio effeithiol.</p> <p>Diolchodd GR i bawb sydd wedi bod yn rhan o'r pedwar cynnig a'r ymdrechion a wnaed i sicrhau cyllid ar gyfer Gogledd Cymru. Mae hwn yn gyfle arwyddocaol i wneud gwir wahaniaeth ar gyfer y rhanbarth a bydd angen ymdrech fawr gan bawb i wireddu'r trawsnewid hwn.</p>	
4.	<p><u>Swydd Ymarferydd Ymgynghorol Dementia Perthynol i Iechyd Cymru Gyfan</u></p> <p>Rhoddodd TO adroddiad ar y cyfle i gyflwyno mynegiannau o ddiddordeb ar gyfer y trefniadau lletya erbyn 26.10.2018. Mae LIC wedi dweud ei bod yn bosibl y gallai'r swydd gael ei llenwi gan Therapydd Galwedigaethol neu ffisiotherapydd. Mae Llywodraeth Leol wedi mynegi diddordeb ac mae TO yn aros am ymateb gan gydweithiwr yn LIC.</p> <p>Dementia - derbyniwyd llythyr gan y Comisiynydd yn cytuno i symud y gwaith yn ei flaen. Bydd BIPBC yn arwain ar y Gymraeg a bydd nyrs arbenigol yn gyfrifol am gyswllt â swyddfa'r Comisiynydd. Mae cyfle yma i edrych ar newidiadau ac addasiadau o fewn y gwasanaeth.</p>	

	<p>Dyweddodd TO bod y Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn hysbysebu am Nyrs Ymgynghorol i weithio ym maes Dementia. Mae'r ail swydd yn canolbwyntio ar iechyd corfforol o safbwynt gweithio gyda phobl â Dementia ac mae hyn yn mynd rhagddo.</p>	
<p>5.</p>	<p><u>Strategaeth Anableddau Dysgu (LD)</u> Cafodd y Bwrdd ddiweddariad gan NA ac SB ar ddrafft terfynol y strategaeth Anableddau Dysgu sy'n cael ei gyflwyno heddiw i'w gymeradwyo'r ffurfiol gan BPRhGC.</p> <p>Dyweddodd NA y datblygwyd y strategaeth AD cyn y Cais Trawsnewid AD a'i fod yn nodi sut y bydd partneriaid yn gweithio tuag at wasanaeth AD integredig yng Ngogledd Cymru, wedi'i ddatblygu ar y cyd gan y partneriaid, gan gynnwys pobl sydd wedi byw drwy'r fath brofiadau.</p> <p>Cafodd yr ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf nifer sylweddol o ymatebion a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori a sicrhodd fod y strategaeth yn cael ei gweld gan gynulleidfa eang ac amrywiol, gyda'r holl ymatebion yn cael eu bwydo i mewn i'r dogfennau terfynol. Darparwyd fersiwn hawdd i'w ddarllen hefyd.</p> <p>Er mwyn gwireddu'r weledigaeth bydd y strategaeth yn cael ei darparu drwy waith integredig ar bum pecyn gwaith:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Strwythurau integredig • Datblygu'r Gweithlu • Comisiynu a chaffael • Newid cymunedol a diwylliant • Technoleg gynorthwyol <p>Bydd gwaith gyda chymunedau lleol yn allweddol o ran cyflawniad y pecynnau gwaith uchod er mwyn sicrhau fod pobl ag anableddau dysgu'n cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys yn eu cymunedau.</p> <p>Amlygodd JL yr hyn sy'n ardystiad mwy na'r cais trawsnewid AD a gymeradwywyd eisoes gan LIC.</p> <p>Nododd JL hefyd nad yw adolygiad AD AGIC (Tachwedd 2016) wedi'i enwi yn y strategaeth a nododd fod yr adolygiad yn cynnwys argymhellion pwysig gan dynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng gofal iechyd a chymdeithasol ar gyfer pobl ag AD, a'r gwahaniaeth rhwng angen medial a gofal a chefnogaeth.</p> <p>Cadarnhaodd NA nad oes cyfeiriad at yr adolygiad yn y strategaeth AD ac y byddai'n cael ei gynnwys yn yr adran cyngor arbenigol yn y cais trawsnewid.</p> <p>Cymeradwyodd JG y tîm am yr ymdrechion enfawr wnaed i ymgynghori ar y strategaeth AD.</p>	

	<p>Holodd CB ynghylch y llywodraethu, yn benodol mewn perthynas â swyddogaeth darparwyr tai a'u rôl mewn darparu llety addas. Cytunodd NA y bydd yr edefyn comisiynu a chaffael yn cael ei ddatblygu ar y cyd â phartneriaid tai.</p> <p>Croesawodd SB y cyfeiriad pwysig at gydraddoldeb a hawliau dynol o fewn y ddogfen.</p> <p>Awgrymodd ME y dylid hefyd meithrin cysylltiadau'n lleol mewn perthynas â llywodraethu ar y strategaeth fel bod y gwaith hwnnw'n mynd law yn llaw a gwaith clwstwr, ac yn y pen draw yn ffurfio rhan naturiol o'r holl wasanaethau.</p> <p>Dywedodd NA fod y strategaeth AD eisoes wedi'i chyflwyno a'i chymeradwyo drwy broses wleidyddol Cyngor Sir y Fflint, cyfarfod traws sector PSG Gogledd Cymru a'r cyfarfod Strategaeth Partneriaeth ac Iechyd Poblogaethau.</p> <p>Cytunodd BPRhGC y dylid cymeradwyo'r strategaeth AD. Gofynnir i bob partner fynd â'r ddogfen drwy eu trefniadau gwleidyddol eu hunain er cymeradwyaeth.</p>	<p>Pob partner i sicrhau fod y strategaeth AD yn mynd drwy eu proses wleidyddol eu hunain.</p>
<p>6.</p>	<p><u>Diweddariad Hanner Blwyddyn CGI</u> Cafodd y bwrdd ddiweddariad ar y Gronfa Gofal Integredig gan Neil Ayling.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfalaf – disgwylir y Llythyr Dyfarniad Grant ar gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig gan LIC. Mae'r Prif Raglenni Cyfalaf (PRC) (> £100k) a'r Rhaglenni Cyfalaf yn ôl Disgresiwn (RhCD) (< £100K) wedi eu cyflwyno i'r Gweinidog. Bydd cymeradwyaeth fel arfer yn cymryd tua wythnos. Unwaith y ceir cymeradwyaeth Gweinidogol bydd llythyr dyfarnu grant ar gyfer y RhCD a llythyr mewn egwyddor ar gyfer y prosiectau PRC yn cael eu derbyn. Bydd llythyr dyfarnu grant ar gyfer y PRC yn cael ei gyhoeddi unwaith y bydd y gwir gostau wedi'u cytuno. <p>Mae Cyfalaf CGI ar gyfer y prosiect Laurels yn Wrecsam wedi ei dynnu'n ôl, gan adael tanwariant o £201,407. Mae posibilrwydd y bydd prosiectau eraill mewn perygl o ganlyniad i gyfraddau amser.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Disgwylir y ddogfen arweiniad ddiwygiedig ar 1 Chwefror 2019. Mae Gweithdai Cenedlaethol yn cael eu cynnal ar hyn o bryd er mwyn ysgrifennu a diweddarau'r arweiniad. • Cafwyd ymateb gan LIC yn ddiweddar yn cymeradwyo prosiect terfynol y Cynllun Gweithredu Dementia. Y dyraniad hollgynhwysfawr yw £1,825,857 <p>Dywedodd BJE bod cofrestr risg ranbarthol wedi'i chreu o ganlyniad i un o'r argymhellion yn adolygiad diweddar Fflur Jones (Swyddfa Archwilio) o'r CGI Mae cofrestrau risg lleol eisoes wedi eu sefydlu.</p>	

	<p>Cytunodd BPRhGC y dylid cymeradwyo'r canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Nodi Crynodeb Ariannol Chwarter 2 CGI a'r Hysbysiadau Newid dilynol yn unol ag arweiniad 2018/19. 2. Nodi'r sicrwydd y byddwn yn parhau i fonitro a rheoli gwariant dyraniadau CGI 2018/19, fodd bynnag bu oedi arwyddocaol gyda chymeradwyaethau Llywodraeth Cymru fel y'u nodwyd yn y Gofrestr Risg ranbarthol. 3. Nodi gofynion a therfynau amser Llywodraeth Cymru ar gyfer adrodd a chymeradwyo. 	
7.	<p><u>Beth sy'n Bwysig</u> Darparodd TO ddiweddariad byr ar y gweithdy 'Beth sy'n Bwysig' arfaethedig. Bwriedir cynnal y gweithdy hwn ddechrau 2019. Bydd y sesiwn yn arbennig o fanteisiol i aelodau BPRhGC ac yn rhoi cyfle i drafod a herio materion penodol. Bydd eitemau i'w hystyried yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ffrydiau gwaith y BPRh a thrawsnewid. • Gweledigaeth BPRh • Datblygu Rhaglen Waith gyfredol ar gyfer y BPRh <p>TO a MWJ wedi cytuno i arwain ar ddod o hyd i hwylusydd allanol ar gyfer y gweithdy, pynciau trafod ac amserlenni.</p> <p>Roedd aelodau'r BPRh yn cytuno â hyn ac yn dweud y byddent yn gwerthfawrogi'r mewnbwn er mwyn cytuno ar y weledigaeth a'r arweiniad a chyfle i rwydweithio mewn sesiynau anffurfiol mwy rheolaidd.</p> <p>Awgrymodd ME yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Cyswllt BIPBC bod Mark Wilkinson yn cyflwyno cynllun 3 blynedd BIPBC.</p> <p>Holodd DW am gynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth y BPRh Gan na chafwyd unrhyw geisiadau mewn ymateb i'r mynegiant o ddiddordeb, cytunodd DW i weithio gyda rhai defnyddwyr gwasanaeth i weld a oes unrhyw ddiddordeb ac adrodd yn ôl.</p>	<p>TO/MWJ i arwain.</p> <p>DW i adrodd yn ôl par cynrychiolydd BPRh.</p>
8.	Unrhyw fusnes arall – dim i'w adrodd.	
9.	Croesawodd aelodau BPRhGC y cyfle i rwydweithio dros ginio bwffe.	
	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Gwener, 11 Ionawr 2019 9:00 am – 12:30 pm</p>	